



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

15 MEDI 2020

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adolygiad Annibynnol - Cymwysterau 2020

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I godi ymwybyddiaeth y Cyd-bwyllgor o'r Adolygiad Annibynnol o ddyfarnu Cymwysterau yng Nghymru yn 2020.

2.0 Cefndir

2.1 Dydd Llun , 17 Awst 2020, cadarnhaodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd graddau Safon Uwch, Safon UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau ac y byddai'n gwneud datganiad pellach ar adolygiad annibynnol o'r digwyddiadau yn dilyn canslo'r arholiadau eleni.

2.2 Yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst 2020, nododd y Gweinidog Addysg y bydd yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau haf 2020, a'r ystyriaethau ar gyfer 2021. Bydd yr adolygiad yn cael ei gadeirio gan Louise Casella, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru sydd â phrofiad helaeth mewn rolau strategol o fewn y sector addysg yng Nghymru.

3.0 Materion i'w hystyried

- 3.1 Bydd yr adolygiad yn ystyried cwestiynau allweddol sydd wedi codi yn sgil y trefniadau a sefydlwyd ar gyfer cymwysterau yr haf hwn, a'r heriau a wynebwyd yn 2020. Bydd yr adolygiad yn darparu argymhellion a nodi materion i'w hystyried ar gyfer 2021.
- 3.2 Bydd adroddiad interim o'r prif ganfyddiadau yn cael ei ddarparu erbyn diwedd Hydref, ac adroddiad terfynol ac argymhellion erbyn canol Rhagfyr.
- 3.3 Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r materion a godwyd gan y rhanbarth mewn perthynas â sgôp yr adolygiad, y broses ei hun a'r materion i'w hystyried wrth symud ymlaen.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys y papur a sicrhau mewnbwn i'r adolygiad annibynnol.

5.0 Goblygiadau ariannol

- 5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

- 8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE, Cydbwyllgor GwE a'r Grŵp Gweithredol Uwchradd Rhanbarthol o benaethiaid.

9.0 Atodiadau

- 9.1 Atodiad 1 – Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau 2020 – materion i'w hystyried.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.